

Dyddiad cyhoeddi: 14 Gorffennaf 2021

Cais Rhyddid Gwybodaeth

Rydym ni'n ysgrifennu atoch i ymateb i'r Cais Rhyddid Gwybodaeth a wnaethoch. Mae eich cais wedi cael ei ystyried yn unol â gofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'n polisi mynediad at wybodaeth.

Fe wnaethoch chi ofyn am yr wybodaeth ganlynol:

“O fis Rhagfyr 2022 ymlaen, mae Gwasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru yn bwriadu cyflwyno cerbydau Mk IV wedi'u hadnewyddu ar wasanaethau rhwng Abertawe a Manceinion.

1. Pa drenau sy'n gadael tua'r Gogledd o Abertawe / Caerdydd drwy gydol y dydd fydd yn defnyddio'r cerbydau newydd?
2. Pa drenau sy'n gadael tua'r De o Crewe / Manceinion drwy gydol y dydd fydd yn defnyddio'r cerbydau newydd?

Ar ôl adolygu eich cwestiynau, rydym ni'n gallu darparu'r wybodaeth ganlynol:

Nid ydym wedi datblygu amserlen eto ar gyfer defnyddio cerbydau MkIV rhwng Manceinion a De Cymru, ac o'r herwydd nid oes gennym y wybodaeth sydd ei hangen arnoch. Rydyn ni'n dilyn y prosesau arferol ar gyfer sefydlu amserlenni gyda'n partneriaid yn y diwydiant ac rydyn ni'n bwriadu cwblhau'r amserlen hon erbyn haf 2022.

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon o ddefnydd i chi.

Yn gywir,

Trafnidiaeth Cymru

Hawliau Apelio

Os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y cafodd eich cais ei drin a'ch bod chi'n dymuno gwneud cwyn neu wneud cais am adolygiad o'n penderfyniad, ysgrifennwch at y Pennaeth Rhyddid Gwybodaeth naill ai yn Trafnidiaeth Cymru, 3 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH neu freedomofinformation@tfw.wales. Rhaid i'ch cais gael ei gyflwyno o fewn 40 diwrnod gwaith i dderbyn y llythyr hwn. Os na fyddwch chi'n fodlon â chanlyniad yr adolygiad mewnol, mae gennych hawl i wneud cais yn uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad.

Gallwch chi gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer, SK9 5AF neu gallwch chi gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy adran 'Gwneud Cwyn' eu gwefan ar y ddolen hon: <https://ico.org.uk/make-a-complaint/>

Yr adran berthnasol i'w dewis fydd "Gwybodaeth Swyddogol neu Gvhoeddus".